# Necrosectomi pancreatig trawslwminaidd endosgopig

Tachwedd 2016

## Beth mae NICE wedi'i ddweud?

Mae necrosectomi pancreatig trawslwminaidd endosgopig yn ddigon diogel ac yn gweithio'n ddigon da i'w ddefnyddio yn y GIG.

### Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Dylai eich gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio'r hyn y mae cael y driniaeth hon yn ei olygu yn llawn a thrafod y manteision a'r risgiau posibl â chi. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Dylai hyn oll ddigwydd cyn i chi benderfynu a ydych am gael y driniaeth hon ai peidio.

### Eich tîm gofal iechyd

Tîm gofal iechyd sy'n brofiadol ym maes rheoli necrosis pancreatig ddylai benderfynu i ba gleifion y dylid cynnig necrosectomi endosgopig. Dylai'r tîm gynnwys arbenigwyr sydd â phrofiad o reoli clefydau pancreatig cymhleth.

## Y cyflwr

Chwarren a leolir y tu ôl i'r stumog yw'r pancreas ac mae'n rhan o'r system dreulio. Mae'n cynhyrchu hylif sy'n cynnwys ensymau sy'n helpu i dreulio bwyd. Weithiau, gall yr ensymau hyn ymosod ar y pancreas ei hun gan achosi chwyddo, llid a phoen difrifol (llid acíwt y pancreas). Gall hyn arwain at gymhlethdod difrifol o'r enw necrosis lle mae rhan o feinwe'r pancreas yn marw. Gall hyn beryglu bywyd y claf.

Y llawdriniaeth arferol ar gyfer necrosis pancreatig yw llawdriniaeth agored neu lawdriniaeth twll clo i dynnu'r feinwe sydd wedi marw. Mewn rhai cleifion, bydd angen defnyddio endosgop i ddraenio hylif sydd wedi casglu.

Mae NICE wedi ystyried defnyddio necrosectomi pancreatig trawslwminaidd endosgopig fel opsiwn triniaeth arall. Nod y driniaeth hon yw osgoi llawdriniaeth agored neu lawdriniaeth twll clo a'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â nhw.

Gall NHS Choices fod yn fan da i gael gwybod mwy.

## Y driniaeth

Caiff y driniaeth ei chynnal drwy ddefnyddio anesthetig cyffredinol neu dawelydd. Gosodir endosgop (tiwb hyblyg tenau gyda chamera ar y pen) ac offerynnau llawfeddygol i mewn i'r stumog drwy'r geg. Caiff y stumog ei chwyddo gan ddefnyddio carbon deuocsid. Caiff toriad bach ei wneud yn wal y stumog a chaiff yr agoriad ei ddal ar agor gyda balŵn. Caiff yr offerynnau eu pasio drwodd i'r ardal o feinwe farw. Caiff yr hylif ei ddraenio a chaiff y feinwe farw ei thynnu. Gall stent (tiwb byr) gael ei adael yn wal y stumog er mwyn helpu i ddraenio unrhyw hylif pellach. Mae angen i'r driniaeth gael ei hailadrodd fel arfer, ac efallai y bydd angen triniaethau eraill.

## Buddiannau a risgiau

Pan edrychodd NICE ar y dystiolaeth, penderfynwyd bod digon o dystiolaeth i wybod pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw. Roedd y naw astudiaeth a ystyriwyd gan NICE yn cynnwys cyfanswm o 940 o gleifion.

Yn gyffredinol, dangoswyd nad oedd gan tua 90% o gleifion unrhyw symptomau ar ôl y driniaeth.

Dangosodd yr astudiaethau fod y risgiau sy'n gysylltiedig â necrosectomi pancreatig trawslwminaidd endosgopig yn cynnwys:

- swigod o aer neu garbon deuocsid yn cael eu dal mewn pibellau gwaed (emboledd); bu farw un claf o ganlyniad i hyn
- gwaedu ar ôl y driniaeth mewn tua 10% o gleifion; roedd angen triniaeth bellach arnynt
- twll mewn organ a achoswyd yn anfwriadol yn ystod y driniaeth, mewn tua 5% o gleifion
- organau yn methu yn achos dau glaf
- aer yng ngheudod yr abdomen, y mae angen defnyddio nodwydd wag weithiau i ryddhau'r aer, mewn 5% o gleifion

- dechreuad diabetes yn achos dau glaf, a ganfuwyd tua chwe mis ar ôl y driniaeth.

Hysbyswyd NICE am rai risgiau posibl eraill hefyd, gan gynnwys sgil-effeithiau'r tawelydd a'r stent yn symud allan o le.

Os hoffech wybod rhagor am yr astudiaethau, gweler y canllaw. Gofynnwch i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol esbonio unrhyw beth nad ydych yn ei ddeall.

## Cwestiynau i'w gofyn i'ch gweithiwr iechyd proffesiynol

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai'r driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau eraill ar gael?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? Pa mor debygol ydynt?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y driniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

## Ynglŷn â'r wybodaeth hon

Mae canllawiau ymyriadau NICE yn rhoi cyngor i'r GIG ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio.

ISBN: 978-1-4731-2307-6